# Cofnodion Cyngor Cymuned Llangywer

**7/7/25**

**Presennol:** Gwyn Roberts (Cadeirydd), D Clwyd Davies, Emyr Jones, Tyly Roberts,

Lis Puw (Clerc)

**Ymddiheuriadau:** Eleri Jones (is-Gadeirydd), W D Williams, Geraint Roberts, Cynghorydd Gwynedd: Alan Jones Evans

1. Croesawyd pawb gan y Cadeirydd a mynegodd cydymdeimlad gydag Eleri Jones yn ei phrofedigaeth diweddar. Anfonwyd gwellhad buan i'r Cynghorydd Alan Jones Evans.
2. Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
3. Nid oedd datganiadau o fuddiant.
4. Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion 7/5/25.
5. **Materion yn codi** o'r Cofnodion a Materion y Clerc:
    i. Derbyniwyd copi o lythyr gan Ysgrifennydd Cabinet dros Trafnidiaeth, Ken Skates, i Mabon ap Gwynfor parthed ymholiadau am waith cynnal ar yr A494. Nid oedd addewid clir ar amser cychwyn ar y gwaith cynnal y ffordd yn Bethel nac yn Rhydymain, a dywedwyd y byddai unrhyw waith yn dibynnu ar y cyllid oedd ar gael ar y pryd. Mynegodd y Cynghorwyr eu siom o glywed am ddiffyg cynlluniau a dyddiadau cadarn.
    ii. Trafodaeth e-bost am statws cais NP5/70/6H: adroddwyd wrth yr aelodau y bu i'r clerc sicrhau Parc Cenedlaethol Eryri mai safbwynt niwtral oedd gan y Cyngor ar y caeis.
    iii. Awyr Dywyll – bydd y swyddog, Dani Robertson, yn cysylltu cyn bo hir.
6. **Cyngor Gwynedd** – Anfonwyd copi o adroddiad ysgrifenedig y Cynghorydd Alan Jones Evans at yr aelodau. Cyfeiriodd at yr arwyddion tryc-llusgo a osodwyd ar ddau ben ffordd Llangywer ac wrth y maes parcio. Roedd y Cynghorwyr yn werthfawrogol o hyn ac o'r farn fod parcio ar hyd ochr y ffordd wedi lleihau. Adroddodd ymhellach fod cynlluniau cadarn i uwchraddio'r holl faes parcio Llangywer, y camerâu, toiledau ac ymestyn y maes parcio. Adroddodd ei fod mewn cysylltiad agos gyda Cyngor Gwynedd ac Adra parthed pryderon am Plas Onn.
7. **Materion Lleol:** nid oedd mater angen sylw Cynghorydd Gwynedd.
8. **Cwmni Pum Plwy Penllyn:** Derbyniwyd adroddiad y cynrychiolwyr a soniwyd y bydd cyfarfod pellach yr wythnos nesaf.
9. **Un Llais Cymru:** Nid oedd Adroddiad o gyfarfod ardal mis Mai, ond derbyniwyd llythyr yn pwyso ar y Cynghorau i anfon cynrychiolwyr.

10. **Materion Ariannol:**

i. Rhannwyd manylion am y sefyllfa gyfredol yn y cyfrif banc.

ii. Adroddwyd na fydd HSBC bellach yn codi £5 y mis am gynnal y cyfrif.

iii. Cytunwyd i dalu anfoneb Community Heartbeat (£69.54) am badiau newydd i'r di-ffib.

11. **Asedau'r Cyngor:**

Di-ffib Llangywer a Rhosygwaliau: Diolchwyd i Clwyd Davies a Tyly Roberts am fonitro'r offer yn rheolaidd, ac i Emyr Puw am lanhau a thacluso'r ciosg yn Llangywer, ac am glirio mieri wrth y coed afalau yn y fynwent.

12. **Ceisiadau cynllunio:** Cadarnhawyd cymeradwyo trwy gyfrwng e-bost cais NP5/70/122A (uwchraddio toiledau maes parcio Llangywer)

13. **Gohebiaeth:**

i. Un Llais Cymru –
    i. Rhaglen Hyfforddiant
    ii. Cyfarfodydd Ardal
    iii. Cyfansoddiad
ii. Cyngor Gwynedd - Cronfa Cynghorau Tref/Cymuned: trwy cydweithrediad Pwyllgor y Neuadd, cytunwyd i wneud cais am offer digidol yn y Neuadd a fydd o ddefnydd i'r Cyngor, i Gymdeithas Glyn a Rhos ac achlysuron eraill. Roedd y Clerc wedi derbyn bras brisiau offer a gosod gan gwmni sydd yn gyfarwydd a gosod offer mewn Neuaddau Pentref. Cytunwyd i holi Huw Antur am ei gymorth wrth lunio'r cais.
iii. Triathlon 2025- bydd y ras yn cael ei chynnal ar 7/9/25, a chytunodd Clwyd i'w enw fynd gerbron fel stiward ar ben y ffordd wrth orsaf Y Bala.
iv. Grant Cymunedau Eryri - gan fod hwn yn ymwneud a di-carboneiddio, cytunwyd i dynnu sylw Pwyllgor y Neuadd at y posibilrwydd o osod paneli solar ar y neuadd /sied.

14. Dyddiad y cyfarfod nesaf: 8/9/25 *Cytunodd yr aelodau yn ddiweddarach i gyfarfod ar 3/9/25 yn dilyn cais bersonol gan y Clerc.*

*Amser gorffen: 9.20pm*

Arwyddwyd……………………………………… (Cadeirydd)______/____/_______ ……………………………(Clerc)